Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
IONAWR 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 17eg Ionawr, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU YN BRESENNOL	Huw Williams(Cad), Meurig Williams, Neal Williams, Jason Hunt, Elin Evans, Emrys Jones, Elwyn Jones, Tom Ellis, Gwilym L.Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng.Glyn Owen Bethan Williams (clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Gwilym V.Thomas, Hugh Jones

2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**
   HW mater cynllunio Penrhos Bach, Llanwnda

4. **Cadarnhau cofnodion** cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Rhagfyr 20fed, 2006.

5. **Materion i'w trafod:**

   a) Lein Bryngwyn – llythyr gan Ffestiniog yn nodi eu bod yn fodlon rhoi lês ar hyd yr holl lein i Gyngor Gwynedd. ElJ yn adrodd fod angen cael barn arbenigwr i gael gweld be yn unio fyddai gwerth 'defnydd o'r tir'. Pawb yn cytuno fod angen mynd ymlaen efo'r mater a chyflogi arbenigwr i wneud y gwaith yma. Bydd yr ymgynghoriad yn costio oddeudu £200.

   b) Cynllun Uwchgwyrfai – copi o lythyr anfonwyd gan Alun Ffred Jones at Gwynfor Owen, Cadeirydd Cymad a chopi o lythyr gan Elwyn Vaughan yn datgan fod 7 allan o'r 10 o'r ceisiadau bellach wedi cael caniatâd. Angen pwyso arnynt i ddechrau ar y gwaith a dal i geisio cael caniatâd ar gyfer y tri safle sydd ar ôl ar fyrder, gan y bydd defaid yn ôl ar y mynydd ym mis Ebrill. Adroddodd y clerc fod NE wedi cynrychioli'r cyngor mewn rhaglen oedd yn trafod y prosiect ar Radio Cymru yn ddiweddar. Hefyd fe siaradodd Mr.Bryn Williams ar ran y porwyr. Adroddodd y clerc fod y ddau wedi siarad yn arbennig o dda.

   c) Llwybr rhwng Tyddyn Canol a Rhandir Mwyn. Clerc wedi cysylltu efo'r perchnogion – adroddodd nad oedd yn ymarferol iawn i ffensio'r llwybr gan y byddai'n torri caeau bychain yn eu hanner ac yn ei gwneud yn anodd iawn i borri'r tir yn iawn. Un awgrym oedd ffensio gyda'r wal, ond penderfynwyd nad oedd hyn 'chwaith yn ymarferol gan y byddai'n golygu newid y gweithredoedd ac ati.

d) MW – steps sy'n arwain i'r mynydd ger Ochr Muriau – y stepiau mewn cyflwr gwael iawn. MW a'r clerc wedi cysylltu efo'r Cyngor Sir – cael gwybod mai Cyngor Cefn Gwlad Cymru sydd yn gyfrifol am y tir. Penderfynnu ysgrifennu atynt i roi gwybod fod y stepiau yn beryglus.

e) Cae Garw, Rhos Isaf – pont – adroddodd GLW fod y gwaith wedi gwblhau. Fodd bynnag, angen i'r clerc gysylltu efo'r Bwrdd Dwr i roi gwybod iddynt fod un o'r falfiau newydd yn gollwng.

6. **Derbyn Adroddiadau:**
Cyfarfod ffordd osgoi Bontnewydd, 8.1.07 – EmJ a'r clerc wedi mynychu. Adroddodd EmJ fod y cynlluniau a gafwyd tua 7 mlynedd yn ôl gan Gyngor Gwynedd oedd yn dangos tri dewis posib ddim yn statudol, ac ni fydd ymgynghoriad ar safle'r ffordd osgoi yn digwydd tan o leiaf ddiwedd yr haf.

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	23,117.39
Cyfri Siec:	412.97
CYFANSWM	23,530.36
Cyflog/costau clerc – Ionawr	371.36
Cyllid y Wlad	90.64
YN WEDDILL	£23,068.36

Cytunwyd i brynu printer newydd, yn dilyn cais gan y clerc. Amcangyfrifir y bydd yn costio oddeutu £230.

9. **Materion Cynllunio**
CO6A/0870/24/LL - Gosod tyrbin gwynt ar dalcen ty - Penrhos Bach, Llanwnda - dim gwrthwynebiad.
CO6A/0786/24/LL - Cynllun diwygiedig i gais rhif CO3A/0816/24/MG - Tir gerllaw Tai Bodawen, Rhostryfan - Gwrthwynebu yn gryf - mae'n mynd i effeithio'n andwyol iawn ar drigolion Tai Bodawen, Coed Anna a Tan yr Allt. Dylid glynu at y cynllun gwreiddiol o dai unllawr yn unig. Mae cwestiynau ychwanegol ynglyn â'r waliau sy'n ffinio'r datblygiad – yn y cais gwreiddiol roedd bwriad i adeiladu wal rhwng y datblygiad a Tai Bodawen/Coed Anna - does dim sôn am wal yn y cais diwygiedig. Hefyd, gan fod y datblygiad yn ffinio gyda llwybr troed ar hyd yr hen lein reilffordd, mae'n bwysig fod ffiniau cadarn yn cael eu hadeiladu yma.

Wedi'u caniatau:
Dinas Farm – Estyniad
Glanrhyd Isaf – adeiladu un ty ac ymestyn cwrtil

10. **Gohebiaeth:**

a) Cyfadran Adnoddau – gorchymyn cau ffordd rhwng Penyceunant a sgwar Rhos Isaf (cychwyn 22.1.07). Daeth cwynion i law ynglyn ag amserlen bysiau yn yr ardal oherwydd y gorchmynion cau ffyrdd. Clerc i gysylltu efo Silver Star i gael manylion.

b) Cynulliad – Cynllun Braenaru Daearyddol Arfon ac Ynys Môn dogfen ymgynghori ar gyfleusterau addysg oedran 16-18- angen llenwi holiadur erbyn Chwefror 16. Clerc i basio'r ddogfen at NE am ei sylwadau. Awgrymir y dylid rhoi ffafriaeth i gynllun 2, ond rhoi ystyriaeth i gynllun 1 hefyd. Aelodau ddim am fynd yr un ffordd â Meirion Dwyfor, am geisio cadw'r chweched dosbarth yn yr ysgolion presennol.

c) Cymuned – cais i'r Cynghorau Cymuned ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn wrthynt ddatgan na fyddant yn caniatau adeiladu tai preswyl newydd heb fod ar gyfer anghenion lleol. Cefnogi'r cais yn gyffredinol ond angen nodi nad ydy'r aelodau yn ffafrio'r syniad o gael cymdeithasau tai i ddatblygu safloedd preswyl, yn hytrach am i deuluoedd ifanc lleol brynu eu cartrefi.

11. Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf

a) Dwr yn y ffordd ger tai Ffrwd Cae Du
b) Cyffordd Ffrwd Cae Du – wedi gofyn am gael 'lane' ychwanegol i fynd i'r chwith beth amser yn ôl
c) Gwyneb y ffyrdd ar Lôn Bwmp, ger Tai Ffridd, Rhosgadfan ac yn gyffredinol o Rhostryfan i lawr i Dinas yn wael iawn.
d) NW am ofyn i gael symud arwydd 30 wrth ddod i mewn i Rhosgadfan yn is lawr, ger Preswylfa
e) Nododd GO ei fod wedi derbyn sawl cwyn ynglyn a chyflenwad trydan yn Rhosgadfan. Clerc i ymholi.
f) HW – torri gwair ger Gwelfor – angen sicrhau fod hwn ar y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yma.
g) HW – cofeb Kate Roberts ar Lôn Wen – pwyso ar y Cyngor Sir i wneud y gwaith atgyweirio.
h) Angen ysgrifennu at y Cyngor Sir yn eu hysbysu fod y ddwy gofeb ger safle Capel Graianfryn wedi'u dwyn.